Cynllun Corfforaethol Bay Leisure 2013 – 2018

Gweledigaeth Bay Leisure Ltd:

"Bod yn weithredwr hamdden nid er elw blaengar, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar fywydau ein defnyddwyr a gwneud gwahaniaeth i'n cymunedau"

Datganiad o Fwriad Bay Leisure Ltd:
I fod yn gwmni deinamig nid er elw sy'n:

- Cyfrannu at weithgaredd corfforol, iechyd, ansawdd bywyd a lles gwell yn y cymunedau lle rydym yn gweithredu.
- Darparu cyfleoedd chwaraeon a hamdden hygyrch o safon uchel i bawb.
- Gwasanaethu ein rhanddeiliaid trwy bŵer ein pobl.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl sefydliadau perthnasol.

Nodau Strategol Bay Leisure Ltd

Proffil Bae Abertawe

- Cefnogi'r strategaethau twristiaeth cenedlaethol a rhanbarthol i ddarparu cyrchfannau twristiaeth o safon.
- Cefnogi a chyfrannu at nod Abertawe i gael ei henwi'n Ddinas Chwaraeon flaenllaw.

Iechyd, Hamdden a Gweithgarwch Corfforol

- Cefnogi Cynllun Corfforaethol Dinas a Sir Abertawe, drwy gyfrannu at helpu pobl yn Abertawe i fabwysiadu a datblygu ffordd o fyw iachus a chynaliadwy.
- Gweithio gyda'r holl rhanddeiliaid priodol i ddatblygu gweithgareddau a chyfleoedd i bawb

Datblygu Busnes

- Parhau i fuddsoddi yng ngweithrediadau Bay Leisure Ltd er mwyn helpu i hyrwyddo gweithgareddau a rhaglenni i bawb.
- Sicrhau bod pob busnes sy'n cael ei reoli gan Bay Leisure Ltd yn gweithredu i safon uchel, yn ymdrechu i gyflawni eu gweledigaeth eu hunain, yn gadarn yn ariannol ac yn gweithredu eu cynlluniau busnes.
- Ehangu busnes Bay Leisure trwy weithio gyda phartneriaid strategol priodol.
- Parhau i ddatblygu tîm o'r radd flaenaf a chael ein hadnabod fel cyflogwr delfrydol.